
**Y profiad o addysgu yn yr Andes, Y Cymro, Rhagfyr 8, 2000**








RHAGFYR. 8, 2000

# Y PROFIAD O DDYSGU YN YR ANDES

**RHIAN JONES gyda'r diweddaraf yn ein cyfres o erthyglau gan athrawon Cymraeg ym Mhatagonia.**

I MI, profiad gwefreiddiol yw dysgu Cymraeg yma yn yr Andes, miloedd ar filoedd o filltiroedd o'r 'hen wlad'.

Does dim dwywaith fod diddordeb a brwdfrydedd y myfyrwyr yn gwneud fy swydd i'n bleser yn hytrach nag yn waith. Cynhelir dosbarthiadau yn nhrefi Esquel a Threvelin ar gyfer pobl o bob oed. Mae croeso yma i blant ac i bensiynwyr.

Ceir amrywiaeth o lefelau hefyd. Cynigir dosbarthiadau ar gyfer dechreuwyr, dysgwyr sy'n weddol rugl, ac ar gyfer siaradwyr sy'n dymuno gloywi eu hiaith a thrafod llenyddiaeth. Mae rhai o'r bobl leol yn gyfrifol am ddysgu dosbarthiadau ac mae eu cyfraniad nhw'n werthfawr; yn wir, mae eu gwaith yn allweddol wrth ystyried dyfodol yr iaith Gymraeg yn yr ardal hon.

Wrth gwrs, mae llawer o ffyrdd eraill o ddysgu'r Gymraeg heblaw am fynychu gwersi, a rhan bwysig o'n gwaith ni yw sicrhau bod y myfyrwyr yn cael cyfle i ymarfer yr iaith y tu allan i'r dosbarth. Trefnir amrywiaeth o weithgareddau felly, er mwyn dod â'r dysgwyr ac aelodau eraill o'r gymuned at ei gilydd i fwynhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Cynhelir dosbarthiadau dawnsio gwerin a chlwb siarad yn gyson, ac o bryd i'w gilydd trefnir rhyw weithgaredd ychwanegol fel cyngerdd, neu swper, neu noson lawen.

Ceir dwy raglen Gymraeg ar y radio lleol hefyd: ar nos Sadwrn y darlledir y rhaglen 'Jam Llaeth' pan chwareir cerddoriaeth fodern ac ar nos Sul, darlledir 'Mawl a Chân' sy'n rhoi cyfle i bobl wrando ar emynau a chaneuon Cristnogol.

Ar hyn o bryd, rydym yn paratoi ar gyfer diwedd y tymor a bwriedir cynnal dwy noson lawen, un yn Esquel a'r llall yn Nhrevelin, er mwyn cyflwyno tystysgrifau i'r dysgwyr a dathlu eu llwyddiant.

## Caneuon

Mae pawb wrthi'n paratoi caneuon a sgetsus ar gyfer y nosweithiau llawen hyn, ac mae yna dipyn o hwyl, chwerthin a thynnu coes wrth i ni ymarfer.

Mae un grwp wedi llunio sgets amdanaf i'n priodi 'gaucho' — oes mae gan y myfyrwyr ddychymyg byw.

Mae sawl person eisoes wedi dangos diddordeb mewn ymuno â'r dosbarthiadau ar ddechrau'r tymor newydd. Yn sicr, mae llwyddiant y dysgwyr yn ystod y flwyddyn a aeth heibio a'r ffaith fod yna bobl eraillsydd eisiau ymuno â'r "Ysgol Gymraeg" y flwyddyn nesaf, yn dangos bod yna addewid y gwelwn y gwaith hwn yn mynd o nerth i nerth.